# Siarad â fi!

## 10 awgrym fydd yn fy helpu i ddysgu siarad



# Mwy am y llyfryn hwn...



Dysgu siarad yw un o'r sgiliau pwysicaf y mae angen i blant eu dysgu cyn mynd i'r ysgol. Mae gallu siarad a chyfathrebu'n dda yn helpu plant i wneud ffrindiau, dysgu darllen a gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae'r llyfryn hwn wedi ei ddatblygu gyda rhieni i'w ddefnyddio gyda'u plant. Y nod yw cefnogi ac annog pob rhiant i helpu ei blentyn i ddysgu siarad o'r cychwyn cyntaf, nes y bydd yn dechrau yn yr ysgol.

Mae rhieni o amryw grwpiau wedi cyfrannu at ddatblygu'r llyfryn.

Ymhlith y grwpiau hyn mae: Canolfan Dechrau'n Deg Cefn Golau (Blaenau Gwent), Grŵp Babi Ioga - Cymraeg i Blant (Blaenau Gwent) Rhwydwaith Rhieni Caerffili, Canolfan Dechrau'n Deg Acorn (Sir Fynwy), Canolfan Dechrau'n Deg Seebreeze (Casnewydd), Ti a Fi (Torfaen).

# Sut mae defnyddio'r llyfryn hwn...

Bydd y blychau glas hyn yn dweud mwy wrthych chi am sut mae plant yn dysgu siarad a beth gallwch ei wneud i helpu.





Edrychwch am y blychau gwyrdd hyn. Byddant yn rhoi syniadau am weithgareddau syml i'w gwneud â'ch plentyn i'w helpu i ddysgu sut i siarad.

# 1 Dechrau siarad â fi cyn fy ngeni

- Galla' i glywed synau o 24 wythnos ar ôl dechrau'r beichiogrwydd.
- 'Dw i wrth fy modd yn dy glywed di'n siarad ac yn canu wrtha i cyn fy ngeni.
- Wedi fy ngeni, buan y bydda' i'n 'nabod lleisiau a glywais i pan o'n i yn y groth.





**"Cana ganeuon wrtha i pan ydw i yn dy fol!"**

# 2 Galla' i ddysgu ein hiaith a'n diwylliant gen ti

- Galla' i ddysgu unrhyw iaith o'm geni.
- Galla' i ddysgu mwy nag un iaith ar yr un pryd. Galli di ddysgu gyda mi.
- Siarad â fi yn yr iaith rwyt ti'n nabod orau.







"Edrych ar stori Gymraeg gyda fi."

# 3 Ein lle gorau yw wyneb yn wyneb

- Cyn y galla' i siarad, 'dw i'n dweud sut 'dw i'n teimlo trwy fy llygaid, trwy wenu, byrlymu a chrio.
- Pan fyddwn ni wyneb yn wyneb, galli di ddeall beth sy'n fy niddori i a beth 'dw i'n trio ei ddweud wrthot ti.
- 'Dw i'n hoffi edrych arnat ti pan ydyn ni'n siarad â'n gilydd.






"Siarad â fi amser prydau am y bwyd rydyn ni'n fwyta."

# 4 Cân rigwm i fi unrhyw bryd

- Os ydw i'n nabod llawer o ganeuon a rhigymau, bydda' i'n dysgu sut i ddarllen yn haws.
- 'Dw i'n hoffi clywed yr un caneuon a rhigymau eto ac eto.
- Pan ydyn ni'n canu, 'dw i'n hoffi ymuno â'r symudiadau a'r geiriau gyda ti.



"Ffeindia rigwm sy'n gwneud i fi wenu ac ymuno â'r symudiadau.



# 5 Siaradwn a chwaraewn bob dydd

- Siarad â fi pan ydyn ni'n chwarae ac fe ddysga' i eiriau newydd.
- 'Dw i'n mwynhau chwarae gyda ti. Os taw fi sy'n dewis y gêm, mae'n bosibl y chwaraea'n hirach.
- Amser bwyd, amser cewyn ac amser bath, mae unrhyw amser yn amser siarad a chwarae'.







"Rho tedi i eistedd gyda ni amser bwyd a siarad ag e hefyd!"

# 6 Edrychwn ar lyfrau gyda'n gilydd

- **Mae siarad am y lluniau mewn llyfrau yn fy helpu i ddysgu geiriau newydd.**
- **Alla i ddim darllen eto ond 'dw i'n hoffi gwrando ac ymuno pan ydyn ni'n edrych ar lyfrau gyda'n gilydd.**
- **'Dw i'n hoffi pan wyt ti'n defnyddio lleisiau ac wynebau digri i ddweud yr hanes wrtha i.**




**"Ffeindia lyfrau gyda lluniau mawr a siarada gyda fi am beth welwn ni."**



# 7 Siarad â fi am beth gallwn ni ei weld

- Os ydw i'n clywed yr un geiriau eto ac eto, mae'n fy helpu i i'w cofio nhw.
- Dweud wrtha i beth galla i ei weld o'm hamgylch, hyd yn oed cyn y galla i siarad.
- Rho amser i fi ymuno, yno dynwared fy ngeiriau wrtha i.






"Pwyntia at beth gallwn ni ei weld a dweud yr enw wrtha i."

# 8 Beth am i ni droi 'amser sgrin' yn 'amser ti a fi'!



- **Alla i ddim gwrando ar ddau beth ar yr un pryd, mae'n haws i fi ddysgu os yw'r teledu a sgriniau wedi diffodd.**
- **Mae ein hamser siarad yn arbennig felly canolbwyntia arna i ac nid ar dy ffôn.**
- **Siarad â fi am beth gallwn ni ei weld os ydyn ni'n gwylio sgrin.**

**"Defnyddia fy nheganau i chwarae wrth i ni ganu cân ar y sgrin."**



# 9 Ychwanega air at beth rwyt ti wedi fy nghlywed i'n dweud

- 'Dw i'n dysgu gen ti, felly siaradwn â'n gilydd yn ein tro.
- Pan ydw i'n dysgu sut i siarad, cofia fy nghanmol, hyd yn oed os yw'n swnio fel taw parablu ydw i.
- Dweud wrtha i beth ddwedais ac ychwanega air arall er mwyn i fi wybod beth i'w ddweud y tro nesaf.






"Pan ydw i'n trio dweud rhywbeth, dweud y geiriau cywir wrtha i ac ychwanega un arall."

# 10 ‘Dw i wrth fy modd yn siarad â phawb!

- ‘Dw i’n hoffi edrych ar wynebau a gwrando ar bobl sy’n siarad â fi.
- Mae’n haws i fi siarad a pharablu heb botel na dymi.
- ‘Dw i wrth fy modd yn siarad â fy ffrindiau, teulu, anifeiliaid anwes a theganau!



**“Cer â fi am bicnic gyda fy hoff bobl a siarad am y bwyd rydyn ni’n hoffi.”**



I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth cysylltwch â'ch ymwelydd iechyd neu ewch i'r gwefannau hyn:
www.bbc.co.uk/tinyhappypeople
www.ican.org.uk/i-cans-talking-point/
www.sltgwentabhb.wales.nhs.uk/talk-with-me

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gyda Therapyddion Lleferydd ac aith o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Thîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent.

Mae 'Siarad â Fi!' wedi'i ddylunio gan Scarlet Design Int. Ltd. www.scarletdesign.com. Hawlfraint pob darluniad - Scarlet Design International Ltd 2020.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Tîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan Gwent Aneurin Bevan Gwent Public Health Team

BBC PLANT Bach HAPUS
Eich geiriau sy'n creu eu byd



Fersiwn 1 Ebrill 2020